



Mae estyniad i bwll glo Aberpergwm yn peryglu trawsnewidiad Cymru i sero-net

Crynodeb

Mae Cymru wedi cymryd camau pendant yn erbyn cloddio am lo yn y blynyddoedd diwethaf. Defnyddiwyd Deddf Cymru 2017 i rwystro estyniad i waith glo brig Nant Helen. Mae angen gweithredu tebyg nawr yn erbyn pwll glo tanddaearol Aberpergwm.

Mae Energybuild Cyf. yn ymestyn ei bwll glo golosg Aberpergwm ac am barhau i wneud hynny tan 2039. Mae hyn yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy waethygu'r argyfwng hinsawdd a fyddai'n effeithio ar y genhedlaeth nesaf o amgylch y byd, yn ogystal â niweidio enw da Cymru'n rhyngwladol.

Mae gwaith dur Port Talbot yn bwriadu datgarboneiddio drwy drawsnewid i wneud dur newydd o fetel sgrap heb ddefnyddio glo; fel arall bydd yn rhaid iddo gau, gan ddiswyddo ei staff, a'r rhai mewn cadwyni cyflenwi. Does dim lle i fwy o gloddio am lo yn y Gymru fodern.

Mae glo'n cael ei gymysgu yng ngwaith dur Port Talbot ac, o'r herwydd, nid yw cloddio mwy o lo yng Nghymru'n lleihau'r swm a echdynnir mewn mannau eraill. Mae'n rhaid i fwy o lo gael ei fewnforio o hyd i'w gymysgu â glo Cymru mewn gweithfeydd dur, gan allforio rhai o'r problemau amgylcheddol a chynnal diwydiant anghynaliadwy yn hytrach na chwilio am atebion hirdymor.

Mae cyllid Energybuild Cyf. yn dangos y gallai'r cwmni hwn werthu'r pwll os yw'n gallu ymestyn. Gallai'r cwmni newydd wneud y mwyaf o echdynnu glo a gwerthu'r glo i'r cynigydd uchaf, neu ddiswyddo nifer fawr. Mae yna ffyrdd eraill o wneud dur a ffynonellau eraill o hidlo dŵr yn lle glo carreg.

Mae dau gynnig arall i ehangu pyllau glo yng Nghymru y mae angen i'r llywodraeth eu hatal, a hefyd sicrhau bod safleoedd mwyngloddio blaenorol yn cael eu hadfer yn llawn.

Glo yw treftadaeth Cymru, nid ein dyfodol.


Cyflwyniad

Dangosodd defnydd Gweinidogol o Ddeddf Cymru 2017 i rwystro ymestyn pwll glo brig Nant Helen fod Cymru'n rhoi ei hymrwymadau hinsawdd ar waith. Gwnaeth datganiad polisi Llywodraeth Cymru 12fed Mawrth 2021 yn erbyn cloddio am lo gryfhau ei hymrwymiad presennol i gyrraedd sero net. Mae atal y don newydd o geisiadau am estyniad i byllau glo, fel yr un yng Nglofa Aberpergwm, yn rhoi cyfle i ddangos bod Cymru yn dal i arwain y ffordd o ran cymryd camau gwirioneddol i ddyfodol mwy cynaliadwy, heb lo.

Mae Cymru a'r Alban yn rhannu treftadaeth falch o gloddio am lo, ond hefyd wedi ysgwyddo'r trasiedïau dynol ac amgylcheddol cysylltiedig. Nawr mae'r ddwy lywodraeth ddatganoledig yn arwain y DU wrth osod cynllun ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy, heb gloddio glo; cyhoeddodd llywodraeth yr Alban waharddiad cyffredinol de-facto ar gloddio am lo ym mis Hydref 2022, sef y safiad mwyaf llym yn erbyn glo hyd yn hyn. Mae'r polisi hwn i bob pwrpas yn rhwystro cais byw am bwll glo newydd ar hyd y ffin rhwng Lloegr a'r Alban. Rhaid i Lywodraethau Cymru a'r Alban sefyll gyda'i gilydd i ddangos i San Steffan nad oes lle yn y DU i gloddio am lo os ydym am roi'r gorau i ddefnyddio glo'n raddol er mwyn osgoi newid trychinebus yn yr hinsawdd ac amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol.

Cais estyn Aberpergwm

Mae Energybuild Cyf. yn cynnig estyn Pwll Glo Aberpergwm, ei waith glo carreg tanddaearol, i gloddio am lo tan 2039. Mae'r pwll wedi'i leoli ger tref Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot. Byddai'r cynnig yn estyn gweithrediad y pwll o'r pen pwll i Afon Dulais yn Nant-y-cafn i'r Creunant, a throsodd i Goedwig Creunant.



Ffeithiau allweddol:

- Gweithwyr: 152 o weithwyr¹ Swyddi newydd: 0
- Statws presennol: gweithredol
- Tunelledd blynyddol yn y flwyddyn lawn ddiwethaf yn gweithredu o dan y drwydded flaenorol²: 81,760 tunnelli o lo. Tunelledd blynyddol arfaethedig: 2.47 miliwn tunnelli y flwyddyn (30 gwaith yn fwy bob blwyddyn nag ar hyn o bryd)
- Cyfanswm tunelledd arfaethedig: 42 miliwn tunnelli i gyd
- Gwastraff blynyddol yn cael ei ddympio: hyd at 0.95 miliwn tunnelli o wastraff y flwyddyn ar y domen sy'n edrych dros Gwmgwrach
- Blwyddyn olaf o weithredu: 2039
- Defnyddiau a honnir: o 2023, byddai 70% yn mynd i weithfeydd dur a gwres domestig³ i'w werthu i'r DU, Iwerddon ac Ewrop Cyfandirol⁴
- Swm y glo a werthwyd i Waith Dur Port Talbot: 27% o'i glo carreg yn 2021⁵
- Arwynebedd mwynloddio: 2.3km²
- Symudiadau lorïau: hyd at 237 o symudiadau lori y dydd
- Llwybr lori: yn gadael y safle ar y B4242, gan droi i'r dde heibio i feddygfa Cwm Nedd ac i'r A465
- Allyriadau: Byddai'r allyriadau methan a CO₂ cyfun yn enfawr – mwy nag allyriadau Cymru am weddill y degawd o amaethyddiaeth, y sector cyhoeddus, tai, gwastraff, a thrafnidiaeth gyda'i gilydd.⁶ (1.17 miliwn tunnelli⁷ o fethan a thua 121 miliwn tunnelli o CO₂⁸)
- Cyllidebau carbon Cymru a'r gyfraith berthnasol: toriad o 63% mewn allyriadau erbyn 2030⁹ a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Hidlo dŵr: Mae Energybuild Cyf. yn mynegi bwriad i gyflenwi mwy o lo at ddefnyddiau hidlo dŵr ond mae ansawdd y glo yn y wythien hon i'w weld yn ei wneud yn anaddas ar gyfer hidlo dŵr¹⁰. Dim ond canran fechan o'r glo, os unrhyw faint, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer hyn. Gellir defnyddio cregyn cnau coco wedi'i actifadu a llawer o ddeunyddiau eraill yn lle hynny, heb y methan a ryddheir gan gloddio am lo.

1 Q2 2022. Production and Manpower Returns, The Coal Authority

2 Q2 2021 to Q1 2022. Production and Manpower Returns, The Coal Authority

3 Channel 4 News report, 1m55. <https://www.channel4.com/news/are-cop26-promises-on-coal-being-broken> (04.02.22)

4 <https://www.energybuild.co.uk/cases/household-fuel>

5 <https://www.business-live.co.uk/economic-development/energybuild-less-carbon-intensive-future-23321912>

6 By Climate Cymru using: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Greenhouse-Gas/emissionsofgreenhousegases-by-year>

7 Global Energy Monitor, cited in Channel 4 News report, 1m55. <https://www.channel4.com/news/are-cop26-promises-on-coal-being-broken> (04.02.22)

8 <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-59164533>

9 Wales carbon budgets/targets March 2021: <https://gov.wales/climate-change-targets-and-carbon-budgets>

10 Core samples show 88.3% fixed carbon content [https://orca.cardiff.ac.uk/115771/1/Zagorscak%20and%20Thomas%20\(2018\).pdf](https://orca.cardiff.ac.uk/115771/1/Zagorscak%20and%20Thomas%20(2018).pdf) (126)

Beth yw glo carreg?

Glo carreg sydd â'r canran carbon uchaf a'r lleiaf o elfennau eraill o'r gwahanol fathau o lo, felly mae'n cynhyrchu mwy o egni wrth ei losgi. Gellir ei ddefnyddio at greu adwaith cemegol a gwres yn y broses gwneud dur.¹¹ Weithiau caiff ei losgi mewn cartrefi, ond nid yw'n tanio'n hawdd ac mae'n ddrutach na mathau eraill o lo.

Pwy fyddai'n cloddio'r glo?

Energybuild Cyf. sy'n berchen ar bwll glo Aberpergwm ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae caniatâd cynllunio yn mynd gyda'r eiddo nid y gweithredwr glo. Gan hynny, gall Energybuild Cyf. wneud addewidion o dunelli metrig is, enwi defnydd terfynol penodol ar gyfer y glo ac ati, ac yna'n syml werthu'r pwll glo i weithredwr arall nad yw o dan unrhyw rwymedigaeth anrhydeddu addewidion ei ragflaenydd, dim ond yr hyn sydd yn y cytundeb cynllunio. Gall y gweithredwr newydd gloddio hyd at y capasiti llawn a ganiateir gan amodau cynllunio a gwerthu i'r defnyddwyr glo mwyaf budr. Nid oes unrhyw ffordd gyfreithiol i atal hyn. Bu llawer o berchnogion y safle hwn eisoes.

A yw'n well defnyddio glo o Gymru yn hytrach na'i fewnforio?

Mae gwaith dur Port Talbot am ddatgarboneiddio a rhoi'r gorau i ddefnyddio glo wrth gynhyrchu dur. Ar hyn o bryd mae glo yn cael ei fewnforio i Bort Talbot, yn ogystal â chael ei gloddio yng Nghymru. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid cymysgu glo i'r ansawdd cywir er mwyn i'r gwaith redeg yn effeithlon. Mae estyn y cloddio am lo yn Aberpergwm yn estyn yr amser y mae glo yn cael ei fewnforio, gan na ellir ei ddefnyddio yn unig. Nid yw cynyddu mwyngloddio glo yn y DU yn arwain at lai o gloddio mewn mannau eraill, y cyfan y mae'n ei wneud yw cynyddu faint o lo sy'n cael ei gloddio'n fyd-eang gan waethygu'r argyfwng hinsawdd. Yr unig ffordd i Gymru gyrraedd sero net yw cadw'r holl lo o dan y ddaear.

Mae dur yn nwydd sy'n cael ei fasnachu'n rhyngwladol; ar hyn o bryd mae'r DU yn allforio llawer iawn o ddr sgrap dramor i wledydd fel Twrci sydd â hanes amgylcheddol gwael. Os bydd y dur sgrap yn aros yng Nghymru yn lle hynny, gellir ei drawsnewid yn gynnyrch newydd mewn Port Talbot sydd wedi'i adnewyddu, gan ddefnyddio Ffwrnais Arc Trydan ag ôl troed carbon llawer is, gan gadw swyddi yng Nghymru. Os caiff Aberpergwm ei estyn rydym yn peryglu'r hinsawdd a'r holl swyddi yn y gwaith dur, a byddai'n gynllun annoeth gan Lywodraeth Cymru heb ystyried yr effeithiau tymor hir.

¹¹ <https://www.carbones.at/antracite-coal>

Datgarboneiddio neu gau Port Talbot

Ar hyn o bryd mae'n ymddangos mai'r cwsmer unigol mwyaf ar gyfer glo o Aberpergwm yw Gwaith Dur Port Talbot. Y gwaith dur yw'r allyrrydd mwyaf o CO₂ yng Nghymru, a'r ail fwyaf yn y DU.

Mae dyfodol y gwaith yn ansicr. Mae Tata Steel wedi rhoi wltimatwm i lywodraeth y DU - cymhorthdal o £1.5 biliwn i drosi'r ffatri i ddefnyddio Ffwrnais Arc Trydan i ailgylchu dur sgrap neu bydd camau i gau'r safle yn dechrau ym mis Gorffennaf 2023 a byddai pob un o'r 4,000 o swyddi'n cael eu colli. Byddai'r cwmni'n darparu hanner arall cyfanswm y buddsoddiad sydd ei angen¹². Os bydd y gwaith yn cau ni fydd angen unrhyw lo ac os bydd yn datgarboneiddio bydd angen ychydig neu ddim glo o gwbl ar y rhan fwyaf o'r dulliau sydd ar gael i gynhyrchu dur.

Dal a storio carbon (Carbon capture and storage - CCS) ym Mhort Talbot

Er bod rhai pobl yn awgrymu y gallai CCS gael ei ddefnyddio i ddatgarboneiddio gwaith dur Port Talbot, nid yw CCS yn opsiwn gwirioneddol oherwydd:

- byddai'n ychwanegu'n sylweddol at gostau cynhyrchu dur¹³ gan fod CCS yn defnyddio llawer o ynni¹⁴
- nid oes unman gerllaw i storio'r carbon deuocsid – byddai angen seilwaith pibellau newydd neu fflyd o longau i gyrraedd storfa ddaearegol¹⁵
- Nid yw CCS wedi'i gyflwyno ar raddfa fawr. Mae Asiantaeth Ryngwladol yr Amgylchedd yn rhagweld y bydd 22GW o brosiectau ar waith erbyn 2020, mewn gwirionedd mae llai na 0.5GW wedi dod i'r amlwg¹⁶.
- Ni fyddai CCS yn dal yr holl allyriadau. O'r tri phrosiect CCS blaenllaw UDA/Canada nid oes yr un ohonynt wedi dal mwy na 40%¹⁷
- Mae ffwrneisi arc trydan yn ffordd brofedig o gynhyrchu dur gwyrddach.

Ymosodiad Rwsia ar Wcráin

Mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y byddant yn rhoi'r gorau i brynu glo ac olew o Rwsia erbyn diwedd y flwyddyn hon a nwy Rwsia "cyn gynted â phosib wedi hynny".¹⁸ Yn 2021, roedd Rwsia yn cyflenwi 43% o'r glo a ddefnyddiwyd mewn gorsafoedd pŵer a gweithfeydd dur ym Mhrydain.¹⁹

12 <https://www.walesonline.co.uk/news/tata-threatens-shut-port-talbot-24558276>

13 <https://www.hse.gov.uk/carboncapture/index.htm>

14 <https://www.foodandwaterwatch.org/2021/07/20/top-5-reasons-carbon-capture-and-storage-ccs-is-bogus>

15 <https://ukccsrc.ac.uk/ccs-explained/carbon-storage>

16 <https://rethinkresearch.biz/articles/ccus-fails-to-deliver-as-ipcc-calls-for-negative-emissions-by-2050>

17 *ibid*

18 <https://www.gov.uk/government/news/uk-imposes-sweeping-new-sanctions-to-starve-putins-war-machine>

19 Digest of UK Energy Statistics Annual Data for UK, 2021 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1094629/DUKES_2022.pdf

Nid yw'r ymosodiad ar Wcráin yn cyfiawnhau parhau na chynyddu cloddio am lo yn y DU. Mewn perthynas â'r pwll glo golosg Cumbria arfaethedig, dywedodd Chris McDonald, prif weithredwr y Sefydliad Prosesu Deunyddiau a chadeirydd Cyngor Metelau'r DU, "Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod yn glir hyd yn oed pe bai'r pwll glo hwn [West Cumbrian Coal] yn agor yfory, ni fyddai'n disodli un dunnell o lo golosg Rwsia o'r DU – a gallaf ddweud hynny'n hyderus".²⁰ Er bod Chris McDonald yn cyfeirio at bwll glo Cumbria, mae'r un peth yn debygol o fod yn wir am estyniad arfaethedig Aberpergwm. Waeth beth fo cyflenwadau glo'r DU, mae Tata Steel wedi dweud na fydd yn defnyddio unrhyw lo golosg o Rwsia.²¹

Hidlo dŵr a ffynonellau amgen

Mae Energybuild Cyf. yn awyddus i ddweud y bydd yn amrywiaethu ei gwsmeriaid. Nid yw'r caniatâd cynllunio yn gofyn am hyn. Hyd yn oed pe bai 100% o'r glo yn mynd i hidlo dŵr, byddai allyriadau methan yn aros yr un fath gan ei fod yn cael ei ryddhau wrth gloddio yn hytrach nag wrth ei ddefnyddio. Mae methan yn nwy tŷ gwydr cryfach na charbon deuocsid.

Mae llawer o gynhyrchion eraill yn cael eu defnyddio i hidlo dŵr ac felly nid oes angen glo carreg. Er enghraifft, mae cregyn cnau coco, a ddefnyddir mewn hidlo carbon wedi'i actifadu, yn rhad o'i gymharu â ffynonellau eraill o garbon wedi'i actifadu, megis glo carreg - ac maent yn gynnyrch gwastraff.²² O ganlyniad, mae defnyddio glo mewn hidlo dŵr yn rhyddhau allyriadau llawer uwch na'r ffyrdd eraill niferus y gellir hidlo ddŵr.

Cyllid Energybuild Cyf

Mae EnergyBuild Cyf. yn gwmni sydd ag asedau dibwys. Mae hyn yn cyfyngu ar y posibilrwydd o adennill arian pe bai'r cwmni'n plygu gyda rhwymedigaethau gan gynnwys draenio parhaus, adfer y safle, a gwneud y twneli'n ddiogel.

Mae Tŷ'r Cwmnïau yn dangos strwythur gweithredu cymhleth o lawer o gwmnïau bach gydag enwau tebyg a chyfeiriadau cofrestredig a rennir sy'n gysylltiedig ag Energybuild Cyf., gweithredwr glo Aberpergwm. Mae gan Energybuild Resources Cyf. rwymedigaethau net o £2.7 miliwn ac asedau gwerth £0.95 miliwn, fel y pennwyd eu gwerth ar ddiwedd 2019. Pe bai'r cwmni'n plygu, mae'n annhebygol y byddai digon o arian ar gyfer gwaith adfer.

Mae'r gwaith o ffeilio cyfrifon sy'n weddill ar gyfer 2020 gan Energybuild Cyf., Energybuild Mining Cyf., ac Energybuild Resources Cyf., sydd i gyd yn gwmnïau sydd â chysylltiad agos, yn dal yn hwyr ym mis Hydref 2022. Statws cwmni Energybuild Resources Cyf. yw 'Receiver Action'.

Mae nifer o gwmnïau sydd â chysylltiad agos sy'n rhannu cyfarwyddwyr a chyfeiriadau ag Energybuild wedi'u rhestru ar Dŷ'r Cwmnïau. IMR Asia Holding PTE Cyf. sy'n berchen ar y tir sy'n cael ei gloddio. Mae'r cwmni wedi'i leoli yn Singapore ac mae'n gwasanaethu buddsoddwyr o'r Swistir.

²⁰ <https://www.theguardian.com/business/2022/may/01/steel-boss-dismisses-claim-that-sector-needs-new-cumbrian-coalmine>

²¹ <https://www.sustainable-carbon.org/uk-tata-steel-which-runs-port-talbot-steelworks-say-they-will-no-longer-use-russian-coal>

²² <https://www.waterfilteradvisor.com/filtration-media/activated-coconut-shell-carbon>

Os bydd Energybuild Mining Cyf. yn methu, efallai mai'r cwmni hwn sy'n atebol am waith adfer, ond oherwydd ei fod wedi'i leoli yn Singapore, ni fydd yn bosibl cael yr arian a addawyd.

Gwresogi dŵr mwynglawdd

Mae gweithwyr Energybuild Cyf. yn ystyried bod y safle yn Aberpergwm yn addas ar gyfer cynhyrchu "gwres gwyrdd". Mae cynllun gwresogi mwynglawdd arbrofol yn Swydd Durham; mae gwres geothermol o'r rhwydwaith o byllau glo segur yn yr ardal o amgylch cynllun trin dŵr pwll glo Dawdon yn cynhesu'r pibellau tanddwr a all wedyn drosglwyddo gwres i gartrefi pobl.²³

Er y gallai defnyddio'r gwres geothermol sydd eisoes ar gael yn ne Cymru fod yn ddefnydd da o seilwaith hanesyddol, pe bai cynllun peilot Durham yn llwyddiannus, ni fyddai angen ehangu cloddio am lo er mwyn cael mynediad at yr adnoddau hyn. Mae gwresogi dŵr mwynglawdd yn cynnig defnydd amgen i'r safle unwaith y bydd y mwyngloddio wedi'i gwblhau, yn hytrach na rheswm i estyn mwyngloddio.

Estyniadau arfaethedig eraill i byllau glo Cymru

Estyniad Ffos-y-fran

Yn 2007, dechreuwyd cloddio 11 miliwn tunnell o lo o bwll glo brig Ffos-y-fran sy'n edrych dros Ferthyr Tudful. Roedd y pwll glo i fod i gau ym mis Medi 2022. Nawr mae'r cwmni glo sy'n gweithredu pwll glo Merthyr (South Wales) Cyf., yn ceisio amrywio'r amodau cynllunio a'r pwll glo am 9 mis arall tra ei fod yn cyflwyno cais cynllunio am 3 blynedd arall o gloddio am lo. Gwrthwynebwyd y cais gwreiddiol yn gryf gan y gymuned leol gan fod y safle'n difrodi'r ecoleg ac yn dileu mynediad i'r tir comin. Mae'r un trigolion yn gwrthwynebu'r cynigion am estyniad.

Estyniad Glan Lash

Mae Bryn Bach Coal Cyf. eisiau mwy na dyblu maint ei bwll glo brig er mwyn echdynnu dros 95,000 tunnell yn fwy o lo o'r safle ger Rhydaman, Sir Gaerfyrddin. Mae adroddiad Ecoleg Cynllunio annibynnol a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn argymhell gwrthod y cais i gyflawni dyletswydd y Cyngor i "gynnal a gwella bioamrywiaeth".

Dylai'r pwll glo brig fod wedi cau yn 2016, gyda chyfnod adfer o 5 mlynedd yn dilyn blwyddyn adfer y safle ond mae'r cais hwn wedi gohirio'r gwaith adfer a addawyd i drigolion lleol o bron i 6 mlynedd hyd yn hyn. Byddai'r anheddiad agosaf at yr estyniad 440 metr i ffwrdd, sef 60 metr yn llai na'r hyn a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2, paragraff 29, "yn gyffredinol ni fydd gweithio glo yn dderbyniol o fewn 500 metr (m) i aneddiadau".²⁴

²³ <https://www.gov.uk/government/news/uks-first-district-heating-scheme-using-mine-water-energy-now-in-development>

²⁴ <https://www.coalaction.org.uk/2022/08/17/glan-lash-overview>

Problem adfer pyllau glo Cymru

Bydd Coal Action Network yn rhyddhau adroddiad, 'Coal Mine Restoration in South Wales'²⁵ ar gyflwr 7 o weithfeydd glo brig yn Ne Cymru. Mae hwn yn ddiweddariad i adroddiad Llywodraeth Cymru yn 2014, Ymchwil i'r methiant i adfer safleoedd glo brig yn ne Cymru²⁶ ar gyflwr adfer ledled Cymru, a amlygodd y safleoedd hyn fel rhwymedigaethau am gael eu gadael heb eu hadfer neu eu hadfer yn wael.

Mae'r ymchwil yn canfod bod cwmnïau mwyngloddio wedi osgoi miliynau o gostau adfer yn gyson, ac mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ei chael hi'n anodd cadw'r addewidion a wnaed i gymunedau lleol sy'n cael ei heffeithio gan byllau glo heb eu hadfer neu wedi'u hadfer yn wael. Mae ymchwil maes yn dangos bod hyd yn oed y safleoedd hynny y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi honni eu bod wedi'u hadfer yn llawn yn cynnwys tanciau storio cemegau diwydiannol sydd heb eu gorchuddio ac sy'n gollwng, warysau wedi'u gadael, llwyfannau concrit, a pharthau gwaharddedig wedi'u gwahanu â weiren bigog.

Cynhelir gweminar am **12-1pm ddydd Mawrth 13eg Rhagfyr 2022** gan Coal Action Network ar y mater hwn. Manylion pellach: www.coalaction.org.uk/2022/11/25/restoration-webinar

Argymhellion

- **Llywodraeth Cymru i wrthod caniatáu trwyddedu ehangu pwll glo Aberpergwm pe bai'r penderfyniad yn cael ei gyfeirio ati yn dilyn penderfyniad y Barnwr yn yr Adolygiad Barnwrol, oherwydd ei effeithiau ar ymrwymadau hinsawdd Cymru ac addewid Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**
- Llywodraeth i sicrhau bod y trawsnewidiad ynni yn golygu bod y 50,000 o gartrefi yng Nghymru yn gosod insiwleiddio priodol, pypiau gwres o'r aer / o'r ddaear, a rhoi diwedd ar losgi glo mewn lleoliadau domestig.
- Llywodraeth i weithredu cynnig gan Jane Dodds AS i gofrestru gweithwyr diwydiant trwm ar y cynllun peilot incwm sylfaenol cyffredinol, gan sicrhau bod cyn-weithwyr pyllau glo o Aberpergwm yn cael eu cynnwys i gefnogi eu trawsnewidiad i ddiwydiannau cynaliadwy fel rhan o becyn cymorth ac ailhyfforddi.
- Llywodraeth i sicrhau bod cronfa adfer ddigonol eisoes wedi'i chronni mewn cyfrif yscrow gan Gastell-nedd Port Talbot i ddarparu ar gyfer adferiad llawn ym mhwl glo Aberpergwm.
- Cyhoeddi datganiad Gweinidogol diamwys yn diystyru unrhyw gloddio glo masnachol newydd neu estynedig ar dir Cymru, cyffelyb i'r Alban. Gwneud 2022 yn bennod olaf yn y llyfr hanes glo yng Nghymru

²⁵ <https://www.coalaction.org.uk/2022/11/21/coal-mine-restoration>

²⁶ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/failure-to-restore-opencast-coal-sites-in-south-wales.pdf>

Coal Action Network

Coal Action Network works for an end to coal use in power generation and steel production; coal extraction and coal imports in the UK, and for justice for communities affected by the UK's current and historical coal consumption and mining. We seek to amplify and strengthen the networks and capacity of front-line communities against extractivism and environmental racism, towards direct democracy and for just transition.

info@coalaction.org.uk www.coalaction.org.uk [@coalactionUK](https://twitter.com/coalactionUK)



Aberpergwm coal stored above ground